Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

National Assembly for Wales
Standards of Conduct Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3 Mehefin 2019

Diweddariad ar Urddas a Pharch

Annwyl Lywydd,

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 21 Mai 2019, a bu'n trafod eich ymateb yn diweddaru'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd hyd yma gan Gomisiwn y Cynulliad yn ymwneud ag urddas a pharch.

Roedd y Pwyllgor yn falch o'r ymateb cadarnhaol ac yn teimlo bod y Comisiwn yn gwneud llawer iawn o waith ar y mater hwn. Nododd y Pwyllgor fod Comisiwn y Cynulliad yn gyflogwr staff sylweddol ar Ystâd y Cynulliad, ac felly byddem yn croesawu sicrwydd bod cefnogaeth ddigonol ar gael i staff y Comisiwn ynglŷn â'r broses gwyno o ran gallu cael gafael ar y wybodaeth a gwneud cwynion.

Byddem hefyd yn croesawu diweddariad ym mis Tachwedd 2019 ar unrhyw gynnydd pellach a wnaed ar waith Urddas a Pharch y Cynulliad.

Yn gywir

Jayne Bryant
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565